

# AR Y GRAIG HON


www.lambsongs.co.nz gan Jill Kemp (Cyf. Catrin Roberts) Lluniau gan Richard Gunther




Mae craig yn sylfaen gadarn os ydych chi am adeiladu rhywbeth, a gallwch ymddiried y bydd yn sylfaen ddiogel. Ystyr 'Pedr' ydy craig. Fe wnaeth yr hyn welodd Pedr roi cychwyn i'r eglwysi Cristnogol cyntaf.



Pan ddaeth Iesu a'i ddisgyblion i dref Cesarea Philipi, fe ofynnodd gwestiwn i'w ddisgyblion, "Pwy mae pobl yn ei ddweud ydw i, Mab y Dyn?"



Dyma nhw'n ateb, "Mae rhai yn dweud Ioan Fedyddiwr; eraill yn dweud Elias; a phobl eraill yn dweud Jeremeia neu un o'r proffwydi."



"Ond beth amdanoch chi?" gofynnodd Iesu, "pwy 'dych chi'n ddweud ydw i?" Atebodd Simon Pedr, "Ti ydy'r Meseia, Mab y Duw byw."




Dwedodd Iesu, "Rwyt ti wedi dy fendithio'n fawr, Simon fab Jona, am mai dim person dynol ddangosodd hyn i ti ond fy Nhad yn y nefoedd."



"A dw i'n dweud wrthyt ti mai Ti ydy Pedr a dyma'r graig dw i'n mynd i adeiladu fy eglwys arni hi, a fydd grym marwolaeth ddim yn ei dinistrio hi," meddai Iesu wrtho.



Fe wnaeth llawer o bobl gredu Pedr a chael eu hachub ar ôl ei glywed yn disgrifio'r gwyrthiau roedd wedi'u gweld gyda'i lygaid ei hun, a sut roedd Iesu wedi marw ar groes a dod yn ôl yn fyw.



Fe wnaeth Pedr ysgrifennu rhai o lyfrau'r Beibl. Yn 2 Pedr 1:16 dwedodd "Dydyn ni ddim wedi dilyn rhyw straeon wnaethon ni eu creu. Dim o gwbl! Roedden ni yno i weld beth ddigwyddodd"